Children in Wales
Plant yng Nghymru

Rhaglen Hyfforddi

Hydref 2009 i'r Gwanwyn 2010

Rhaglen Hyfforddi Plant yng Nghymru

Croeso i Rhaglen Hyfforddi newydd Plant yng Nghymru. Mae'n holl gyrsiau yn rhai amlddisgyblaethol a'u nod yw hyrwyddo ymagwedd integredig ar gyfer pob un o'r rheiny sy'n gweithio mewn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Rydym yn defnyddio adnoddau ein tîm staff arbenigol ein hunain, a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, i gyflwyno digwyddiadau hyfforddi o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru. Gallwn hefyd ddarparu hyfforddiant 'mewnol.'

Archebu Lle

Cofrestrir ar sail y cyntaf i'r felin ac mae lleoedd yn gyfyngedig, felly fe'ch cynghorir i drefnu'ch lle yn gynnar. Pan fydd y cwrs yn llawn cedwir rhestr wrth gefn a fyddwn ni'n cysylltu a chi os bydd unrhyw un yn canslo. Gellir bwcio trwy ddefnyddio'r ffurflen gais amgaeedig neu ar-lein trwy wefan Plant yng Nghymru, www.plantyngnghymru.org.uk. A fyddech cystal â llenwi un ffurflen ar gyfer pob cynrychiolydd, a phan fyddwch wedi'i llenwi, gwnewch gopi ar gyfer eich cofnodion eich hun. Ni dderbynnir archebion dros y ffôn. Pan dderbynnir eich cais, bydd eich lle yn cael ei gadarnhau trwy e-bost a bydd manylion y cwrs yn cael eu hanfon atoch cyn y digwyddiad. I osgoi cael eich siomi ar y diwrnod, a wnewch chi sicrhau eich bod wedi cael cadarnhad o'ch lle cyn mynd i'r lleoliad.

Canslo

Os byddwch yn canslo tair wythnos cyn dyddiad y digwyddiad, cewch ad-daliad llawn, ac eithrio £10 o ffi gweinyddu.

Ni ellir rhoi ad-daliad ar ôl y dyddiad hwn, ond gellir gwneud cyfnewidiadau. Mae Plant yng Nghymru yn cadw'r hawl i addasu rhaglenni digwyddiad ar unrhyw adeg.

Hyfforddiant Mewnol

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu un o'n digwyddiadau sy'n cael eu hysbysebu neu gomisiynu diwrnod hyfforddi pwrpasol, gallwn deilwra'r hyfforddiant yn unol â'ch gofynion penodol gan drefnu eich rhaglen am y dydd, darparu hyfforddwr arbenigol a'r holl ddeunyddiau perthnasol ar eich cyfer. Os ydych chi'n gallu darparu'r lleoliad, gall hyn fod yn ffordd cost effeithiol o sicrhau bod anghenion hyfforddi grŵp staff cyfan yn cael eu diwallu ar adeg ac mewn lle sy'n addas ar gyfer eich sefydliad.

Ymunwch â Phlant yng Nghymru

Pam na ymunwch â Phlant yng Nghymru a manteisio ar gyfraddau aelodaeth ar gyfer gyd o'n cyrsiau hyfforddiant? Cysylltwch â ni ar 029 2034 2434 neu trowch at www.plantyngnghymru.org.uk/membership i gael gwybod mwy. Fel aelod gallwch gael gostyngiadau ar ddigwyddiadau, hefyd E-friffiau Polisi rheolaidd, gohebiaeth aelodaeth chwarterol (gan gynnwys cylchgrawn lliw llawn) a llawer o fuddion eraill.

Cynnwys

Ffocws ar blant a phobl ifanc	2	Diogelu Plant a Phobl Ifanc	9
Iechyd, lechyd Meddwl a lles	4	Cefnogi Ymarferwyr	12
Cefnogi teuluoedd	7	Calendr Hyfforddi	14

Ffocws ar Blant a Phobl Ifanc

Cyflwyniad i hawliau a chyfranogiad plant

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

Cwrs rhagarweiniol yn defnyddio amywiaeth o ddulliau cyfranogol wedi eu hanelu at ymarferwyr a rheolwyr yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a diogelwch y cyhoedd. Mae'r diwrnod hwn ar gyfer y rhai sy'n newydd i'r maes hwn neu ar gyfer pobl sydd am ddiweddaru eu gwybodaeth o'r agenda yn seiliedig ar Hawliau, sy'n datblygu yng Nghymru.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o rôl 'hawliau plant' a sut y gall gweithwyr proffesiynol ei chymhwyso a'i chynnwys yn eu harfer bob dydd
- Archwiliad i'r ffordd y mae gwerthoedd ac agweddau personol yn effeithio ar ein hymagwedd at hawliau plant
- Amrywiaeth o ddulliau cyfranogol y gellir eu defnyddio wrth ymwneud â phlant a phobl ifanc
- Dealltwriaeth o fframweithiau deddfwriaethol a pholisi, gan gynnwys y Safonau Cyfranogi sy'n bodoli yng Nghymru

21 Medi 2009, Caerdydd
19 Tachwedd 2009, Wrecsam
25 Mawrth 2010, Caerfyrddin

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Chwarae – rhoi i blant yr hyn maent ei eisiau a mwynhau'r buddion

Seminar hanner diwrnod ar gyfer rheolwyr gwasanaethau wedi ei hwyluso gan Chwarae Cymru

Mae'r seminar hon ar gyfer rheolwyr gwasanaethau plant, a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Bob tro yr ydym yn eu holi, mae plant yn gofyn am fwy o amser ansawdd, lle a chwmni i chwarae. Mae chwarae'n ganolog i fywydau plant - maent yn mynd i mewn i bob amgylchedd gan feddwl sut y gallant chwarae ynddo. Mae cefnogi cyfleoedd chwarae o ansawdd mewn gwasanaethau plant yn sicr o ddod â manteision sylweddol.

Bydd y sesiwn seminar yn cynnwys:

- Ystyried sut y gallwn ddeall yr hyn mae plant ei angen a'i eisiau yn well, a chyflwyno newidiadau i sicrhau bod plant yn cael profiad chwarae cadarnhaol o fewn ein gwasanaeth
- Datblygu dealltwriaeth y cyfranogwyr o fframweithiau deddfwriaeth a pholisi Cymru
- Archwilio'r modd y mae ein profiadau a'n hagwedd ein hunain yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn ymateb i gynllunio a darparu ar gyfer chwarae plant
- Darparu cyfle i archwilio ffyrdd y gall cyfranogwyr gefnogi timau staff i hwyluso ystod eang o gyfleoedd chwarae o fewn meysydd y gwasanaeth.

16 Hydref 2009, Hen Golwyn
19 Hydref 2009, Pontypridd

COST:
Aelodau £40
Heb fod yn aelodau £50

Chwarae – cyflwyniad i'r hyn y mae plant ei angen fwyaf

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Chwarae Cymru

Mae'r cwrs rhagarweiniol hwn wedi ei seilio ar theori chwarae gyfredol ac arfer da o ran darpariaeth chwarae. Mae wedi anelu at unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, gan gydnabod pwysigrwydd chwarae yn eu bywydau. Mae'n gyfle i herio'r meddwl a rhyngweithio wrth ddysgu mwy am gefnogi plant i chwarae. Bydd yn help i ymarferwyr ddeall yr hyn sy'n digwydd pan mae plant yn chwarae a sut y gallant gefnogi eu syniadau yn well.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Rhan ganolog chwarae ym mywyd plentyn
- Yr hyn sy'n bwysig i blentyn pan mae'n chwarae
- Sut mae plant yn ymateb ac yn effeithio ar amgylchedd wrth chwarae
- Sut mae gwneud ein mannau gwaith yn well mannau i blant chwarae
- Beth gall ein hamgylchedd gynnig iddynt? Sut gall ein hymagwedd wneud gwahaniaeth?

10 Tachwedd 2009, Treffynnon
19 Tachwedd, Caerfyrddin
10 Rhagfyr 2009, Pontypridd

COST:
Aelodau £80
Heb fod yn aelodau £100

Cyfathrebu ac ymgynghori gyda phlant anabl

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Triangle

Bwriad y cwrs rhagarweiniol hwn yw cynyddu cymhwysedd a hyder wrth gyfathrebu ac ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc anabl, yn enwedig ynglŷn â'u safbwyntiau, dyheadau a theimladau. Bydd y cwrs yn cyflwyno dulliau cyfathrebu gwahanol i'r cyfranogwyr, o fewn fframwaith gwerthoedd clir.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Meithrin agwedd wybodus ac ystyrlon at yr holl waith gyda phlant a phobl ifanc anabl
- Archwiliad o amrywiaeth eang o arddulliau a dulliau cyfathrebu
- Defnyddio ystod o strategaethau i oresgyn rhwystrau cyfathrebu

27 Tachwedd 2009, Hen Golwyn
10 Rhagfyr 2009, Caerdydd

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Iechyd, Iechyd Meddwl a Lles

Materion allweddol y glasoed

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Young People Now

Mae safle pobl ifanc yn y gymdeithas mewn cyflwr cyfnewidiol yn barhaol. Mae angen i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc wahaniaethu rwng y gau a'r gwir. Bwriad y cwrs hwn yw cynyddu'r ddealltwriaeth o'r materion, tasgau a'r her allweddol sy'n wynebu pobl ifanc heddiw, er mwyn i unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, ystyried y ffordd orau i'w cefnogi.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Archwilio'r ffyrdd y mae cymdeithas wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf, sut mae hyn wedi effeithio ar bobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw
- Adnabod y tueddiadau allweddol mewn meysydd fel poblogaeth, addysg, cyflogaeth, iechyd, bywyd teuluol a throsedd
- Archwilio'r meddwl cyfroes ynglŷn â chyfnod y Glasoed a chysyniadau fel cyfnodau datblygu a 'thasgau'
- Gweithio ar ffyrdd ymarferol i wella sgiliau cyfathrebu (gwrando ac ymateb) pobl ifanc
- Ystyried y materion uchod o fewn fframwaith nad yw'n gwahaniaethu, gan ystyried pynciau fel 'hil', cefndir ethnig, anabledd, dosbarth, rhywioldeb, diwylliant a chrefydd

13 Ionawr 2010, Merthyr

COST:
Aelodau £120
Heb fod yn aelodau £145

Lleihau damweiniau blynyddoedd cynnar yn y cartref – ymyrryd yn effeithiol

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs undydd cyfranogol hwn yn tynnu ar ymchwil ac ymyriadau ar sail tystiolaeth i helpu ymarferwyr ddeall a delio gyda damweiniau yn y cartref y gellir eu rhwystro, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf cyffredin, y rhai difrifol neu'r rhai sy'n achosi'r anabledd mwyaf. Anelwyd y cwrs at Bartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Dechrau'n Deg a Chychwyn Cadarn, Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparwyr Cyfarpar Diogelwch y Cartref, a Rheolwyr Iechyd a Lles.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Adnabod pwy sy'n wynebu'r risg mwyaf a pham y mae risg yn amrywio
- Ymyrraeth effeithiol – Syrthio, Tân, Gwenwyno, Llosgiadau amrywiol
- Ymyriadau ymarferol

8 Hydref 2009, Caerdydd
28 Ionawr 2010, Rhyl
9 Chwefror 2010, Caerfyrddin

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Cynlluniau cyfarpar diogelwch y cartref ar gyfer y blynyddoedd cynnar

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

Bydd y cwrs ymarferol hwn yn galluogi ymarferwyr i adnabod cyfarpar diogelwch cartref sy'n effeithiol i blant dan bump oed ac i ddeall egwyddorion, ymarferoldeb a her gosod a chynnal cynllun cyfarpar diogelwch y cartref. Bydd y cwrs hwn o fudd i gydlynwyr y cynlluniau, prynwyr a'r rhai sy'n gosod y cyfarpar, Dechrau'n Deg a Chychwyn Cadarn, gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol, Gwasanaethau Tai, Partneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch y Gymuned.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Adnabod amcanion cynllun cyfarpar diogelwch y cartref
- Deall a chymhwyso meini prawf gwaelodlin ar gyfer cyfarpar effeithiol
- Pa gyfarpar sy'n debygol o gynyddu risg damwain
- Egwyddorion, ymarferoldeb a her gweithredu a chynnal cynllun cyfarpar diogelwch y cartref effeithiol

Cyn mynychu'r cwrs hwn, rydym yn annog ein cynrychiolwyr yn gryf i fynychu ein cwrs undydd 'Lleihau Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar'

11 Tachwedd 2009, Caerdydd
3 Mawrth 2010, Rhyl
16 Mawrth 2010, Caerfyrddin

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Cyflwyniad i iechyd meddwl plant a'r glasoed

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan YoungMinds

Mae'r cwrs hwn yn adeiladu ar egwyddorion craidd yr NSF yng Nghymru er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o iechyd meddwl plant a phobl ifanc a chynyddu hyder, cymhwysedd a chynhwysedd yn y maes pwysig hwn o wasanaethau plant. Mae'r cwrs wedi ei anelu at bawb sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc, rheini neu ofalwyr sydd am weithio gydag eraill er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Archwiliad o sut y gall ymarferwyr, ym mha sefyllfa bynnag, hyrwyddo iechyd meddwl yn ei rôl
- Sut i adnabod plant neu bobl ifanc sy'n profi, neu'n debygol o brofi, problemau iechyd meddwl
- Adnabod ffyrdd o ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ac/neu eu teuluoedd sydd â phroblemau llai difrifol a chymhleth

19 Hydref 2009, Hen Golwyn
12 Tachwedd 2009, Caerdydd

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Ymchwilio i iechyd meddwl babanod a'r blynyddoedd cynnar

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan YoungMinds

Mae'r cwrs wedi ei anelu at y rhai sy'n gweithio gyda babanod neu blant ifanc, gyda rhieni neu ofalwyr babanod neu sy'n gwneud gwaith hyrywddo iechyd gyda phobl ifanc neu ddarpar rieni. Bydd y cwrs hefyd o ddiddordeb i unrhyw un sydd am ddatblygu eu dealltwriaeth o sylfeini lles emosiynol a datblygiad seicolegol plant.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Archwilio anghenion iechyd meddwl babanod
- Ymlyniad, cyweiriad, empathi a datblygiad ymennydd y baban
- Datblygiad ymenyddol amenedigol ac ymhlith babanod
- Datblygiad rheolaeth emosiynol a'r swyddogaeth adlewyrchol
- Yr hyn sy'n gweithio wrth gefnogi rhieni a gofalwyr
- Risg a gwydnwch mewn teuluoedd a chymunedau
- Lles emosiynol rhieni, gofalwyr ac ymarferwyr

22 Ionawr 2010, Merthyr
11 Chwefror 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Hunan niweidio

Cwrs deuddydd wedi ei hwyluso gan YoungMinds

Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym mha sefyllfa bynnag, sydd am ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau yng nghyd-destun hunan-niweidio.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Diffiniadau o hunanniweidio
- Teimladau'n gysylltiedig ag ymddygiad hunan-niweidiol
- Ffeithiau a ffigyrau ar amlder ac achosion o hunanniweidio
- Gwybod ble i gael help
- Sut i reoli ymddygiad hunan-niweidiol yn gadarnhaol
- Datblygu strategaethau i reoli realiti gweithio gyda phobl sy'n hunan-niweidio
- Gweithio tuag at ddulliau ymdopi mwy diogel

11 & 12 Mawrth 2010, Castell-Nedd

COST:
Aelodau £225
Heb fod yn aelodau £250

Cefnogi Teuluoedd

Gweithio creadigol gyda phlant a theuluoedd

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Fatherskills

Mae'r cwrs hyfforddi dwys undydd hwn yn cyflwyno'r cyfranogwyr i ethos defnyddio creadigrwydd yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Mae'r cwrs yn cynnig bocs offer i'r cyfranogwyr, er mwyn iddynt ddatblygu ffyrdd newydd o fagu ymddiriedaeth, cyfathrebu a chyd-weithio, goresgyn rhai o'r rhwystrau'n ymwneud â llythrennedd, yn ogystal â dysgu am, a mynd i'r afael â hunan-barch isel.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Esboniad o egwyddorion a'r arfer o ddefnyddio creadigrwydd
- Sut mae creadigrwydd yn ysgogi ymddygiad cydweithredol
- Datblygu dealltwriaeth o sut mae eich profiad eich hun yn dylanwadu ar eich ffordd o weithio
- Cyfle i chwalu amharodrwydd yng nghyd-destun creadigrwydd a chwarae
- Archwilio ymarferion 'porth' creadigrwydd
- Trafodaeth o'r modd y gall y rhain gael eu hintegreiddio i mewn i'ch gwaith
- Sgiliau a hyder i ymgymryd â'r ymarferion yn eich gwaith

24 Medi 2009, Castell Nedd
9 Tachwedd 2009, Merthyr
4 Mawrth 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £135
Heb fod yn aelodau £160

Gweithio gyda thadau

Cwrs deuddydd wedi ei hwyluso gan Fatherskills

Bydd y diwrnod yn annog trafodaeth ac yn canolbwyntio ar ffyrdd i ennyn ymrwymiad tadau, sydd o fudd uniongyrchol i'w plant, i'w partneriaid ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae'r cwrs wedi ei anelu at weithwyr proffesiynol sy'n awyddus i ymwneud yn ystyrlon gyda thadau.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Egwyddorion ac arfer gweithio gyda thadau
- Arfer gorau mewn sefydliadau
- Awgrymiadau ymarferol o ran ffynonellau ar gyfer recriwtio tadau
- Sut i gefnogi tadau i chwarae a rhyngweithio gyda'u plant
- Archwiliad o agweddau tuag at rôl mamau a thadau i godi plant
- Y gwahaniaethau rhwng y modd y mae tadau a mamau yn magu eu plant
- Y sgiliau angenrheidiol i hwyluso perthynas ystyrlon rhwng tad a'i blentyn

5 & 6 Tachwedd 2009, Castell Nedd
25 & 26 Chwefror 2010, Merthyr

COST:
Aelodau £195
Heb fod yn aelodau £235

Mae fy Mam a Nhad yn dadlau cryn dipyn, gwrthdaro rhieni: osgoi'r goblygiadau i blant a rhieni

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Parenting and Lifestyle Pleasure

Cwrs undydd yn trafod sut mae gwrthdaro rhwng rhieni (os ydynt yn byw gyda'i gilydd neu beidio) yn effeithio ar les plant. Wedi ei anelu at staff sy'n gweithio gyda phlant a rhieni mewn gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg, cefnogi rhianta, gwasanaeth troseddau ieuenctid, gwasanaethau camdrin yn y cartref.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Sut mae codi pynciau'n ymwneud ag effaith gwrthdaro ar blant, yn sensitif
- Sut mae helpu rhieni i ystyried a chynllunio sut i ddiogelu eu hunain a'u plant rhag effeithiau andwyol gwrthdaro ar eu rhianta
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â gwrthdaro a'r angen i ddangos empathi a sensitifrwydd wrth weithio gyda rhieni mewn perthynas gythryblus
- Sut mae defnyddio'r modiwlau ar wrthdaro yn greadigol er mwyn cwrdd ag anghenion grwpiau rhieni
- Sut y gall ymarferwyr fod yn fwy hyderus a chyfforddus yn eu rôl fel hwyluswyr wrth ymateb i rieni mewn sefyllfa o wrthdaro

20 Tachwedd 2009, Merthyr

COST:
Aelodau £120
Heb fod yn aelodau £145

Challenging years!

Cwrs undydd ar gyfer hwyluswyr rhaglenni rhianta, yn cael ei hwyluso gan Young People Now

Bydd y cwrs hwn yn paratoi ymarferwyr ar gyfer cynnal rhaglen Challenging Years! Mae Challenging Years! yn rhaglen rhianta fer, hygyrch i rieni. Mae'n archwilio'r perthynas newidol rhwng rhieni a'u plant wrth iddynt symud i'r ysgol uwchradd. Mae'r rhaglen yn annog rhieni i ystyried yr heriau newydd y bydd eu plant yn wynebu wrth gael mwy o annibyniaeth, ac mae'n ddelfrydol ar gyfer ei gynnal mewn ysgolion a safleoedd cymunedol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Gwybodaeth weithiol o gynnwys llawlyfr Challenging Years!
- Yr hyn sy'n effeithiol wrth gefnogi rhieni plant yn eu harddegau
- Anghenion gwahanol rieni ar y cwrs
- Datblygu sgiliau hyrwyddo yng nghyd-destun Challenging Years!

Bydd pob cyfranogwr yn derbyn copi o lawlyfr Challenging Years!

12 Ionawr 2010, Merthyr

COST:
Aelodau £165
Heb fod yn aelodau £190

Ymagweddau cadarnhaol tuag at greu ymddygiadau cadarnhaol

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Windfall Training

Nod yr hyfforddiant hwn yw helpu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth ddyfnach o natur swyddogaethol ymddygiadau a ystyrir yn heriol ac adnabod dulliau cadarnhaol, blaengar o ymateb. Bydd y sesiwn yn cynnig fforwm diogel wedi ei seilio ar arfer i ystyried ffyrdd o weithio gyda phlant y mae eu hymddygiad yn creu rhwystr yn eu perthynas cymdeithasol, addysgol a chwarae. Mae'r diwrnod hwn yn edrych ar ymddygiadau ar draws pob oedran ac ystod gallu, gan danategu natur gyfathrebol ymddygiad.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Natur swyddogaethol ymddygiad a gweithio gyda fframwaith asesu ABC
- Amrywiaeth o strategaethau wedi eu seilio ar dystiolaeth er mwyn ymateb i ymddygiadau anodd a threisgar
- Arweiniad ymyrryd mewn argyfwng
- Sut i ddelio gyda'n hymatebion a'n straen ein hunain

18 Mawrth 2010, Merthyr
23 Mawrth 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Gweithio gyda theuluoedd wedi'u dadrithio a theuluoedd anghydweithredol

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

Anelir y cwrs undydd hwn at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Bydd yr hyfforddiant yn mynd i'r afael â gwendidau'r gweithiwr ac yn cynnig sgiliau a strategaethau cyfathrebu i'r cyfranogwyr a fydd yn eu cynorthwyo mewn achosion sy'n debygol o fod yn gymhleth ac anodd mewn sawl sefyllfa wahanol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Adnabod dulliau cyfathrebu sy'n briodol i ganllawiau'r asiantaeth
- Datblygu a gwella sgiliau ac arfer rhyngbersonol sy'n bodoli eisoes
- Adnabod rhwystrau cyfathrebu effeithiol a chymryd y camau angenrheidiol i leihau'r effaith y gall hyn ei chael ar y plentyn, y teulu a'r gweithiwr
- Adnabod anghenion penodol mewn perthynas â phlant yn profi trais domestig ac esgeulustod yng ngolau ymchwil cyfredol ac arfer da
- Adnabod ymddygiad nad yw'n addas a gallu sicrhau diogelwch y plentyn, y teulu a'r gweithiwr

16 Hydref 2009, Caerdydd

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Camdrin yn y cartref a diogelu plant – ymagwedd amlasiantaeth tuag at asesu risg a chynllunio diogelwch

Cwrs undydd yn cael ei gynnal ar y cyd rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs wedi ei anelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a thai lle ceir cefnogaeth. Bydd y diwrnod yn galluogi'r ymarferwyr i ddeall mwy am arwyddion risg ac i rannu arfer da wrth weithio gydag aelodau'r teuluoedd dan sylw.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Ymchwil cyfredol ar effaith camdrin yn y cartref ar blant a phobl ifanc
- Deall sut y gall plant gael eu defnyddio gan y rhai sy'n cam-drin
- Adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu'n drwm ar fywydau menywod a phlant ar ddiwedd perthynas gyda rhywun a fu'n cam-drin a chreu cynllun diogelwch priodol
- Gwybodaeth am y ffactorau risg sydd eu hangen i wneud asesiad risg
- Gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a theuluoedd er mwyn adnabod ac ystyried y ffactorau risg
- Ymagwedd holistig tuag at gam-drin yn y cartref

2 Tachwedd 2009, Blaenau Gwent
17 Tachwedd 2009, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £98
Heb fod yn aelodau £120

Y rhyngrwyd i bobl ifanc: cyfle a her

Hyfforddiant deuddydd wedi ei hwyluso gan WISE KIDS

Mae'r hyfforddiant rhyngweithiol hwn wedi ei anelu at bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau ieuenctid, addysg a lles plant ac sydd angen ddeall datblygiadau'r dechnoleg newydd a materion e-Ddiogelwch. Mae wedi anelu at y rhai sy'n awyddus i ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a rhaglenni hyfforddiant priodol. Bydd yn helpu'r cyfranogwyr i ddeall a rheoli risgiau ar-lein.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Darlun diweddar o'r technolegau rhyngrwyd newydd ac sydd ar fin ymddangos
- Sut mae pobl ifanc yn defnyddio technoleg y rhyngrwyd a ffonau symudol
- Mynediad dan oed at safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a'r her mae'r rhain yn eu cynnig, rhannu gwybodaeth bersonol gyda 'ffrindiau ar-lein'
- Sgamiau a dwyn adnabyddiaeth
- Mynediad at gynnwys anaddas a pheryglus ar-lein, asesu pa mor ddibynadwy mae cynnwys ar-lein, rheoli gosodiadau preifatrwydd a data ar-lein
- Bwlio-seibr a pharatoi i bwrpas rhyw
- Sut mae sicrhau bod gan bobl ifanc y gefnogaeth angenrheidiol yn nhermau sgiliau a gwybodaeth er mwyn gwneud y gorau o'u defnydd o dechnolegau'r rhyngrwyd a ffonau symudol

30 Tachwedd – 1 Rhagfyr 2009, Nantgarw ger Caerdydd

COST:
Aelodau £195
Heb fod yn aelodau £235

Defnydd diogel o'r rhyngrwyd gan bobl ifanc

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Wise Kids

Argymhellir y diwrnod hyfforddi ymarferol hwn i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a rhieni megis athrawon, llyfrgellwyr, gweithwyr ieuenctid, grwpiau cymunedol, gweithwyr cymdeithasol. Bydd y diwrnod yn cynnig ymwybyddiaeth o dechnolegau'r cyfryngau newydd, y rhyngrwyd a ffonau symudol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Cyflwyniad i dechnolegau newydd y rhyngrwyd megis blogs, wikis, voip, porthi RSS, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol ac ati
- Archwilio sut mae pobl ifanc yn defnyddio'r rhai o'r technolegau hyn
- Helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall yn well y cyfleoedd cadarnhaol a ddaw yn sgil y technolegau hyn
- Deall y risgiau a wynebir ar-lein gan bobl ifanc a'u helpu i ddeall a rheoli materion diogelwch allweddol y Rhyngrwyd
- Darparu adnoddau a strategaethau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn rheoli eu diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill ar-lein

5 Tachwedd 2009, Glannau Dyfrdwy
17 Mawrth 2010, Abertawe

COST:
Aelodau £150
Heb fod yn aelodau £175

Ymlyniad plentyndod a'r goblygiadau ar gyfer ymagwedd aml-asiantaeth o arfer

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru

Bydd y cwrs yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol plant ac i fyfyrio ar ymchwil cyfredol sy'n berthnasol i ymlyniad, perthynas a'u heffaith tymor hir ar blant. Bydd yr hyfforddiant yn ystyried y goblygiadau ar gyfer y rhai sydd â phrofiad o blentyndod a aflonyddwyd ac i annog agwedd fwy ystyrlon tuag at arfer.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o gysyniad ymlyniad, ei effaith ar ddatblygiad emosiynol hir dymor a'i berthnasedd i arfer gofal plant
- Dealltwriaeth o theori gwydnwch, gan gynnig dulliau adeiladol o weithio gyda phlant dan fygythiad.
- Ystyried beth yw datblygiad 'normal' ac adnabod a deall sut mae profiadau plant yn gallu cael eu hadlewyrchu yn eu hymddygiad.
- Adlewyrchu ar oblygiadau hir dymor ymlyniad gwan yn ystod plentyndod.

9 Rhagfyr 2009, Castell-Nedd
20 Ionawr 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Cefnogi Ymarferwyr

Cyflwyniad i waith grŵp

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru.

Bydd y cwrs undydd hwn yn ystyried y materion sylfaenol y dylid ymdrin â nhw wrth gynnig gwaith grŵp i gleientiaid. Mae'n addas ar gyfer pobl sy'n cynnal unrhyw fath o grŵp - ffurfiol neu anffurfiol, yn cael ei arwain gan dasg, cynnwys neu broses, wedi strwythuro neu beidio - a gydag unrhyw grŵp o gleientiaid. Bydd hefyd yn helpu'r cyfranogwyr adnabod cryfderau a gwendidau eu harfer presennol ac i ystyried posibiliadau hyfforddi i'r dyfodol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Archwilio'r broses ar gyfer cynllunio cychwynnol y grŵp
- Gwybodaeth a phrofiad o theorïau a dulliau gwaith grŵp
- Sut i gynllunio sesiynau unigol
- Deall patrymau cyffredin proses gwaith grŵp
- Deall sut i gysylltu'r dull gwaith grŵp a ddewiswyd gydag amcanion a bwriadau'r grŵp penodol
- Syniadau ar gyfer cofnodi gwaith grŵp, a chysylltu hyn gyda chyflwyno adroddiadau ac argymhellion i randdeiliaid
- Adnabod ymddygiad amhriodol as sicrhau diogelwch y plentyn, y teulu a'r gweithiwr

15 Hydref 2009, Llandudno
22 Hydref 2009, Castell-Nedd

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Gweithio gyda rhieni a all fod yn beryglus

Cwrs undydd wedi eu hwyluso gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs undydd hwn wedi ei anelu at ymarferwyr a rheolwyr sy'n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, sy'n gweithio 'tu allan i oriau' yn gyson ac sydd am deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â gweithio gyda theuluoedd sy'n cynnig peryglon posibl. Bydd y cwrs yn rhoi'r cyfle i ddeall y peryglon trwy archwilio dulliau mwy diogel o weithio.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'r risg a wynebir gan staff wrth ddiogelu plant
- Rhannu strategaethau atal a diogelu er mwyn delio gyda rhieni/gofalwyr peryglus
- Gosod y strategaethau hyn yng nghyd-destun iechyd a diogelwch y gweithle

4 Rhagfyr 2009, Hen Golwyn
12 Chwefror 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Dysgu, chwerthin a chwarae gyda phlant a phobl ifanc ar y sbectrwm awtistiaeth

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Windfall Training

Nôd y diwrnod hyfforddi hwn yw cynyddu dealltwriaeth y cyfranogwyr o awtistiaeth fel diwylliant a phersbectif. Mae'r persbectif hwn yn hysbysu pob agwedd ar fywyd a datblygiad mewn llu o ffyrdd gwahanol ac mae'n dylanwadu'n ddwys ar ein perthynas gyda phlant a phobl ifanc awtistig. Mae'r cwrs hwn yn cynnig strategaethau ac ymagweddau ar gyfer perthynas gweithio a chwarae cadarnhaol o fewn diwylliant Awtistiaeth.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Safbwyntiau cyfredol ar natur a nodweddion Awtistiaeth
- Dulliau chwarae ac ymddygiad wedi eu seilio ar dystiolaeth
- Strategaethau i gefnogi cyfathrebu a sylw a rennir

5 Chwefror 2010, Merthyr
10 Mawrth 2010, Hen Golwyn

COST:
Aelodau £115
Heb fod yn aelodau £135

Cyflwyniad i fesur vanlyniadau meddal a'r pellter a deithiwyd

Cwrs undydd wedi ei hwyluso gan Plant yng Nghymru.

Mae cyllidebau dan bwysau a rhaid i bob sefydliad ystyried darbodusrwydd ac effeithlonrwydd ond mae'n bwysig cadw golwg ar effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae'r cwrs ar gyfer rheolwyr ac ymarferwyr sydd am ddangos bod ei ymyrraeth wedi gwneud gwahaniaeth i'r bobl a gefnogir ganddynt. Bydd y cwrs yn edrych ar bwysigrwydd mesur canlyniadau meddal y mae eich ymyrraeth wedi eu cyflawni i'r bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw. Bydd y cyfranogwyr yn archwilio ystod eang o offer creadigol y gellir eu defnyddio gyda phob grŵp, o blant i bobl ifanc.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Deall diffiniadau monitro a gwerthuso
- Sut i ddatblygu a gweithredu system fonitro effeithiol
- Beth i fonitro a pha ddangosyddion i'w defnyddio
- Archwilio amrywiaeth o offer i fesur canlyniadau
- Adolygu cynnydd i asesu'r pellter a deithiwyd

4 Rhagfyr 2009, Caerdydd
27 Ionawr 2010, Llandudno

COST:
Aelodau £80
Heb fod yn aelodau £100

Calendr Hyfforddi

Medi - Rhagfyr 2009

Date	Course Title	Venue
21 Medi	Cyflwyniad i hawliau a chyfranogiad plant	Caerdydd
24 Medi	Gweithio creadigol gyda phlant a theuluoedd	Castell-Nedd
8 Hydref	Lleihau damweiniau blynyddoedd cynnar yn y cartref – ymyrryd yn effeithiol	Caerdydd
15 Hydref	Cyflwyniad i waith grŵp	Llandudno
16 Hydref	Gweithio gyda theuluoedd wedi'u dadrithio a theuluoedd anghydweithredol	Caerdydd
16 Hydref	Chwarae, rhoi i blant yr hyn maent ei eisiau a mwynhau'r buddion	Hen Golwyn
19 Hydref	Cyflwyniad i iechyd meddwl plant a'r glasoed	Hen Golwyn
19 Hydref	Chwarae, rhoi i blant yr hyn maent ei eisiau a mwynhau'r buddion	Pontypridd
22 Hydref	Cyflwyniad i waith grŵp	Castell-Nedd
2 Tachwedd	Camdrin yn y cartref a diogelu plant	Blaenau Gwent
5 Tachwedd	Defnydd diogel o'r rhyngrwyd gyda phobl ifanc	Glannau Dyfrdwy
5-6 Tachwedd	Gweithio gyda thadau	Castell-Nedd
9 Tachwedd	Gweithio creadigol gyda phlant a theuluoedd	Merthyr
10 Tachwedd	Chwarae – cyflwyniad i'r hyn y mae plant ei angen fwyaf	Treffynnon
11 Tachwedd	Cynlluniau cyfarpar diogelwch y cartref	Caerdydd
12 Tachwedd	Cyflwyniad i iechyd meddwl plant a'r glasoed	Caerdydd
17 Tachwedd	Camdrin yn y cartref a diogelu plant	Hen Golwyn
19 Tachwedd	Chwarae – cyflwyniad i'r hyn y mae plant ei angen fwyaf	Caerfyrddin
19 Tachwedd	Cyflwyniad i hawliau a chyfranogiad plant	Wrecsam
20 Tachwedd	Mae fy Mam a Nhad yn dadlau cryn dipyn	Merthyr
27 Tachwedd	Cyfathrebu ac ymgynghori gyda phlant anabl	Hen Golwyn
30 Tachwedd - 1 Rhagfyr	Y rhyngrwyd i bobl ifanc: cyfle a her	Ger Caerdydd
4 Rhagfyr	Gweithio gyda rhieni a all fod yn beryglus	Hen Golwyn
4 Rhagfyr	Cyflwyniad i fesur canlyniadau meddal a'r pellter a deithiwyd	Caerdydd
9 Rhagfyr	Ymlyniad plentyndod a'r goblygiadau ar gyfer ymagwedd aml-asiantaeth o arfer	Castell-Nedd
10 Rhagfyr	Cyfathrebu ac ymgynghori gyda phlant anabl	Caerdydd
11 Rhagfyr	Chwarae – cyflwyniad i'r hyn y mae plant ei angen fwyaf	Pontypridd

Calendr Hyfforddi

Ionawr - Mawrth 2010

12 Ionawr	Challenging Years!	Merthyr
13 Ionawr	Materion allweddol y glasoed	Merthyr
20 Ionawr	Ymlyniad plentyndod a'r goblygiadau ar gyfer ymagwedd aml-asiantaeth o arfer	Hen Golwyn
22 Ionawr	Ymchwilio i iechyd meddwl babanod a'r blynyddoedd cynnar	Merthyr
27 Ionawr	Cyflwyniad i Fesur Canlyniadau Meddal a'r pellter a deithiwyd	Llandudno
28 Ionawr	Lleihau damweiniau blynyddoedd cynnar yn y cartref – ymyrryd yn effeithiol	Rhyl
5 Chwefror	Dysgu, chwerthin a chwarae gyda phlant a phobl ifanc ar y Sbectrwm Awtistiaeth	Merthyr
9 Chwefror	Lleihau damweiniau blynyddoedd cynnar yn y cartref – ymyrryd yn effeithiol	Caerfyrddin
11 Chwefror	Ymchwilio i iechyd meddwl babanod a'r blynyddoedd cynnar	Hen Golwyn
12 Chwefror	Gweithio gyda rhieni a all fod yn beryglus	Caerdydd
25-26 Chwefror	Gweithio gyda thadau	Merthyr
3 Mawrth	Cynlluniau cyfarpar diogelwch y cartref	Rhyl
4 Mawrth	Gweithio creadigol gyda phlant a theuluoedd	Hen Golwyn
10 Mawrth	Dysgu, chwerthin a chwarae gyda phlant a phobl ifanc ar y Sbectrwm Awtistiaeth	Hen Golwyn
11-12 Mawrth	Hunan niweidio	Castell-Nedd
16 Mawrth	Cynlluniau cyfarpar diogelwch y cartref	Caerfyrddin
17 Mawrth	Defnydd diogel o'r rhyngrwyd gyda phobl ifanc	Abertawe
18 Mawrth	Ymagweddau cadarnhaol tuag at greu ymddygiadau cadarnhaol	Merthyr
23 Mawrth	Ymagweddau cadarnhaol tuag at greu ymddygiadau cadarnhaol	Hen Golwyn
25 Mawrth	Cyflwyniad i hawliau a chyfranogiad plant	Caerfyrddin

Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor
Caerdydd CF10 3BZ

Ffôn: 029 2034 2434
bookings@childreninwales.org.uk
www.plantyngnghymru.org.uk